

Ein Cwricwlwm

Mwynhau Dysgu a Llwyddo Gyda'n Gilydd





Cyflwyniad

Ysgol cyfrwng Gymraeg ym mhentref Clocaenog ydy ysgol Carreg Emlyn sy'n gwasanaethu plant cymunedau Cyffylliog, Bontuchel, Galltegfa, Clocaenog, Clawddnewydd a Derwen. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Brynhyfryd. Rydym yn ran annatod o'r gymuned wledig yma mewn ardal sy'n ffinio a Choedwig Clocaenog.

Amaethyddiaeth yw prif ddiwydiant yr ardal, ac mae llawer o'r rhieni yn gweithio yn y maes yma. Felly yn amlwg mae diddordeb mawr gan y plant mewn anifeiliaid, peiriannau, cynaliadwyedd a byd natur yn gyffredinol.

Mae hybu y defnydd o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymreig yn bwysig iawn i ni yn yr Ysgol.



Eîn Gweledigaeth

Mwynhau Dysgu a Llwyddo Gyda'n Gilydd

Eîn pwrpas yn Ysgol Carreg Emlyn yw i gynnig addysg Gymraeg i blant o gymuned wledig, mewn amgylchedd gynhwysol, deuluol, diogel, iach ac hapus.

Eîn dîsgwyliadau yw safonau addysgol a moesol uchel, a sicrhawn fod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal a'r gefnogaeth i ddatblygu i'w lawn botensial fel unigolyn annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol

Eîn nod yw cynnig sylfaen gadarn i'n plant ddatblygu yn aelodau gofalgarn a pharchus o'r gymuned leol, o Gymru ac o'r byd.



Ein Disgwyliadau

Rheolau Ysgol Carreg Emlyn



Gwrando ar ein gilydd

Bod yn gwrtais




Cerdded o amgylch yr ysgol



Rhoi eich gorau



Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd



AMSER STORI - 'BETH OS FYDDAI PAWB YN GWNEUD HYNNA?'



BWYSIG GWRANDO A DILYN RHEOLAU

DIM TAFLU PETHAU
MEWN BWYTY



DIM TAFLU
SBWRTEL


DIM RHEDEG O GWMPAS YR
ARCHFARCHNAD

DIM SEFYLL MEWN CAR NEU FWS
PAN MAE'N SYMUD

PIC•COLLAGE



Llais Ein Dysgwyr



Mae llais ein dysgwyr yn ganolbwynt ein cwricwlwm yn Ysgol Carreg Emlyn. Ar gychwyn pob hanner tymor rydym yn casglu syniadau ein dysgwyr am beth hoffent ei ddysgu, mae eu mewnbwn yn rhan allweddol o'n cynllunio a trywydd y dysgu.

I sicrhau ein bod yn meithrin unigolion ar gyfer y dyfodol mae'r pedwar diben hefyd yn holl bwysig wrth i ni fwynhau ein themau gwaith amrywiol.



Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor yn ethol Cadeirydd, Ysgrifennydd a Trysorydd ac yn cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor. Maent yn ysgrifennu Cylchlythyr Cyngor Ysgol bob tymor ac yn rhannu hwn gyda'r dosbarthiadau yn yr ysgol, gyda ein rhieni ac ar ein gwefan. Mae'n bosib i blant gyflwyno'u awgrymiadau ar sut i wella yr ysgol wrth gael trafodaethau gyda'r Cyngor neu rhoi syniadau yn ein blwch.



Eîn Cyngorau

Mae ganddom bedwar Cyngor yn yr Ysgol sydd yn holl bwysig i sicrhau fod llais pob plentyn yn cael ei glywed. Mae cyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal ac mae'r Cyngorau yn cyflwyno eu gwaith yn rheolaidd yn ein Gwasanaeth Wythnosol.

Criw y Ddraig

Mae Criw y Ddraig yn gyfrifol am hybu'r laith Gymraeg drwy'r Ysgol. Maent yn cyfarfod bob hanner tymor ac yn trefnu gweithgareddau yn ogystal a gweithio tuag at eu blaenoriaethau. Mae ganddynt wefan eu hunain i rannu gwybodaeth.




Cyngor Eco

Mae'r Cyngor Eco wedi arwain yr Ysgol tuag at Gwobr Blatinwm Eco Ysgolion. Maent yn gosod targedau ac yn weithgar iawn yn sicrhau ein bod yn ysgol sydd yn edrych ar ol ein amgylchedd a'n byd.



Llysgnehadon Lles

Mae'r Llysgnehadon Lles yn weithgar iawn yn sicrhau fod lles ac iechyd meddwl pob un plentyn yn yr Ysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Maent yn rhannu holiaduron i'n dysgwyr ac yn gweithredu ar yr ymatebion. Maent yn trefnu gweithgareddau lles ar gyfer yr ysgol.



Addysgu

Wedi casglu syniadau ein dysgwyr rydym yn eu defnyddio i gynllunio. Byddwn yn ystyrlon o'r sgiliau trawsgwricwlaidd ynghyd a'r datganiadau o'r hyn sydd yn bwysig wrth gynllunio. Rhoddir pwyslaïs ar gynnig profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn o ansawdd uchel i'n dysgwyr. Byddwn yn adolygu ein addysgu drwy fonitro ac addasu fel bo'r angen. Mae'n holl bwysig i ni fod ein dysgwyr yn mwynhau ac yn cael hwyl wrth ddysgu.

Mae 6 maes dysgu yr ydym yn cynllunio ar eu cyfer ynghyd a'r elfennau mandadol hyn;

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
Addyg Cydberthynas a Rhywioldeb

Fframwaith
Llythrennedd

Fframwaith
Rhifedd

Fframwaith
Cymhwysedd Digidol

leithoedd, Llefaredd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

lechydd a Lles

Dyniaethau

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Celfyddydau Mynegiannol



Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.

Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.

Creu cyd-destunau dilys.

Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.

Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.

Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau traws-gwricwlaidd.

Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu.

Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgygliadau uchel ond cyraeddadwy.

Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben.

Hybu cydweithio

Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol.

Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.



Egwyddorion Addysgu

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth fel Ysgol a gofynion Fframwaith y Cwricwlwm mae addysgu ardderchog yn hanfodol. Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, cysondeb ym mhob dosbarth ac awyrgylch diogel a chartrefol er mwyn i'n dysgwyr gael teimlo'n gyfforddus i fentro, allu gwneud camgymeriadau a dysgu o fewn amgylchedd diogel sydd yn parchu ymdrechion pawb yn hollbwysig i ni. Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r 12 egwyddor addysgegol a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm.

Maes Dysgu a Phrofiad

Ieithoedd, Llefaredd a Chyfathrebu

Mae dysgwyr sydd yn siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith



Mae dysgwyr sy'n gwrando a darllen yn effeithiol yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes




Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

Maes Dysgu a Phrofiad

Mathemateg a Rhifedd


Bydd dysgwyr yn gweld bod ystadegau'n cynrychioli data, bod tebygolrwydd yn modelu siawns a bod y ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.



Creu estron.




Creu gofodwr ac estron sy'n symud.



Pwy sy'n cofio ein sgiliau lluosu?



Gwneud llun estron ar y cyfrifiadur.



Adnabod priodweddau siapiau 2D



Gwneud roced gyda siapiau 2D a'i labelu.



Côdio sgwariau.




Diagram Fen




Bydd dysgwyr yn darganfod bod y system rifau yn cael ei defnyddio i gynrychioli ac i gymharu cydberthnasau rhwng rhifau a meintiau

Maes Dysgu a Phrofiad

Dyniaethau

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol



Mae datblygiad meddwl ymchwilgar yn galluogi dysgywr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol drostyn nhw eu hunain

"Pa degan oedd yn boblogaidd yn yr ail ryfel byd?"



Maes Dysgu a Phrofiad

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae ymateb a myfyrio fel artist a chynulleidfâ yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a thrwyddynt.



Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg

Maes Dysgu a Phrofiad

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

*Deall natur a'r modd
mae'n lliwio'r byd*



Tyfu algae i wella
safon aer ein
dosbarth



Sesiwn
Wyddoniaeth



Defnyddio offer
wyddoniaeth



Cymharu samplau



Monitro CO2 y
dosbarth




Cwis Kahoot



"Sut mae robot yn symud a'r llygaid yn
flachio" - cwestiwn plentyn



Cylched Trydan



Didoli - Beth sy'n defnyddio
trydan



*Archwilio'r modd mae
grymoedd ac egni yn pennu
strwythur a dynameg
y bydysawd*



Gwrando
ar stori

Mewngofnodi
ar Hwb


Tynnu llun
o roced



Maw datblygu
iechyd a lles
corfforol yn
fanteisiol gydol ein
hoes.

Maes Dysgu a Phrofiad

lechyd a Lles



Mae cydberthnasau
iach yn sylfaenol
i'n hymdeimlad o
berthyn a lles.



YSGRIFENNU GEIRIAU CAREDIG




CREU BREICLED CAREDIG



AMSER CYLCH
SUT I FOD YN FFRIND
DA I SANJIT

PIC•COLLAGE



Mae ein
penderfyniadau yn
effeithio ar
ansawdd ein
bywydau ni a
bywydau pobl
eraill.

Asesu A Chynnydd

Credwn yn gryf bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i wneud cynnydd yn eu dysgu ac felly dyna yw prif bwrpas i'n gweithdrefnau asesu ni yn ein hysgolion. Cawn ddarlun cyflawn o ddatblygiad bob plentyn yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth iddynt gamu fyny drwy flynyddoedd cynnar eu haddysg. Rhown bwyslaïs ar bwysigrwydd cydweithio a cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr ym mhob dosbarth a bod hyn yn datblygu o sgysïau proffesiynol rheolaidd gyda'n gilydd, rhieni a gofalwyr. Fel hyn rydym yn ymateb i Ddibenion Asesu'r Cwrïcwlwm....

Dangos Cynnydd

O ymuno a'r ysgol hyd nes gadael mae sampl o waith bob dysgwr yn cael ei gasglu a'i gadw mewn ffeil personol. Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

Cefnogaeth Barhaus

Cefnogaeth barhaus i'n dysgwyr yn ddyddiol. Mae systemau asesu cyson ar lawr dosbarth yn rhoi darlun clir i ymarferwyr ac i'r dysgwyr o'u cyrhaeddïad a beth yw eu camau nesaf. Mae'n bwysig i ni bod pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnydd eu hunain o dan arweiniad ac anogaeth.

Myfyrïo a Mireinïo Cynnydd



Er mwyn myfyrïo a mireinïo cynnydd dysgwyr unigol dros amser, sicrheir fod cyfnodau penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer sgysïau proffesiynol er mwyn trafod cynnydd pellach. Cyfle yw hyn hefyd i sicrhau pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau ac ysgolion uwchradd.

Mae cyd-gynllunio'n holl bwysig er mwyn sicrhau fod dilyniant
sgiliau drwy'r ysgol

Blwyddyn 1

Blwyddyn 2




Blwyddyn 3



Blwyddyn 4

Blwyddyn 5

Blwyddyn 6



Dilyniant Cymhwysedd Digidol

Mae cyd-gynllunio'n holl
bwysig er mwyn sicrhau fod
dilyniant sgiliau drwy'r ysgol


Derbyn




Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Blwyddyn 4



Blwyddyn 5



Blwyddyn 6



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Wrth asesu cynnydd ein dysgwyr gallwn sicrhau ein bod yn cynnig y gefnogaeth orau bosib er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau i gyrraedd eu potensial. Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth yr ydym yn ei gynnig yn Ysgol Carreg Emlyn.

Triongl Ymyrraeth Ysgol Carreg Emlyn



ADY

Cefnogaeth 1 i 1, IDP, Cefnogaeth Allanol, Cefnogaeth ALNCo Clwstwr, Uned Ymddygiad

Targedu Unigol/Grwpiau

ELSA (emosiynol), Dyfal Donc (darllen Cymraeg), Catchup a Toe by Toe (darllen Saesneg), Tric a Chlic, Phonics Saesneg, Plus 1 (mathemateg sylfaenol), Sêr Sillafu/Cynllun Sillafu Cymraeg a Saesneg

Targedu Cyffredinol

Cwnsela CSDd, Siart Ymddygiad, Siart Gwobrwy, Amserlen Gweledol, Llyfr Cyswllt Adref, Hafan, Tracio Teimladau, Storiâu Cymdeithasol, Bocs Pryderon

Cyffredinol

Tric a Chlic, Sgiliau Sylfaenol Iaith, Sgiliau Sylfaenol Rhif, Ffurio rhifau a/neu llythrennau, Sgiliau Gwranddo, Cynllun Gloywi Iaith Gymraeg, Cynllun Un, Dau, Tri (rhif), Adnoddau dyslecsia, Sêr Sillafu/Cynllun Sillafu Cymraeg a Saesneg

Cyfoethogi Ein Cwrîcwlwm

Yn ogystal a chynllunio o fewn ein Cwrîcwlwm rydym hefyd yn sicrhau fod digon o gyfleoedd i gyfoethogi hyn. Esiamplau fyddai trawsdoriad o gyfleoedd chwaraeon, tripiâu preswyl ac ymweliadau i ymwneud a'n thema.



Sioe Gerdd Matilda





Barn Ein Plant am Ein Cwricwllwm

“Fy hoff ardal yn y
dosbarth yw Y
Celfyddydau
Mynegiannol ac Iechyd
a Lles”.

“Fy hoff thema oedd
Rala Rwdins” (B11)
“Fy hoff thema oedd
yr Oes Fictoria” (B16)

“Rydw i’n hoffi cael
gwneud gwaith celf”.

73% yn mwynhau
cael ymwelwyr i’r
ysgol/dosbarth.

“Fy hoff beth am yr
ysgol yw cael gwneud
pethau hwyl”.

Celf, Mathemateg ac
Ymarfer Corff yw’r
pynciau mwyaf
poblogaidd drwy’r
ysgol.


“Os yw’r gwaith yn rhy
heriol mae gen i lwyth
o adnoddau i fy helpu
ac athrawon caredig”.

97% yn nodi eu
bod yn dysgu
pethau newydd
yn yr ysgol.

“Fy hoff beth yw
actio a cael
ysgrifennu
sgrïpt”

“Dwi’n hoffi cael
dewis pa waith
dwi’n ei wneud”

Eîn Rhieni a'n Cymuned



Mae cael cefnogaeth eîn rhieni yn holl bwysig i nî fel Ysgol. Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn rheolaidd er mwyn meithrin perthynas gadarnhaol. Er mwyn cefnogi a hybu ymgysylltu ddwy ffordd effeithiol gyda rhieni/gofalwyr rydym yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau megis; wyneb yn wyneb, yn ddigidol drwy e-bost ac eîn app. Rhennir cylchlythyr yn wythnosol ac mae eîn tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu diweddarau yn wythnosol i arddangos gweithgareddau'r plant. Mae pob dosbarth yn defnyddio SeeSaw i rannu gwaith a gweithgareddau eîn dysgwyr gyda'n rhieni.



Gweithdy Angylion
gan aelodau'r Eglwys

PIC-COLLAGE



diolch i bawb

PIC-COLLAGE



@ysgolcarregemlyn



Instagram

Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

